Newyddlen Blog Canolfan San Silyn

Cefnogi addysgu a dysgu yn Wrecsam

Annwyl Gydweithwyr,

Mae'r Nadolig bron ar ein gwarthaf a gyda diwedd tymor mor hwyr eleni, mae wedi ymddangos ar adegau fel pe na bai byth yn cyrraedd. Diolchwn i chi unwaith eto am eich gwaith caled parhaus a'ch ymroddiad diwyro. Yn benodol, hoffem ddiolch i chi am eich brwdfrydedd a'ch parodrwydd i ymgysylltu â ni. Gwyddom fod cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn frawychus ar adegau, ond er gwaethaf hyn mae llawer ohonoch wedi bod yn awyddus i ddysgu mwy am sut y gallwch ddarparu CGM ystyrlon a phriodol i'ch dysgwyr, ac rydych yn gwneud cynnydd rhyfeddol gyda'ch darpariaeth CGM, felly da iawn chi!

Rydym wedi bod yn brysur, yma yng Nghanolfan San Silyn, gyda nifer o brosiectau y tymor hwn, gan gynnwys yr adnoddau dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer CGM. Mae'r swp cyntaf yn y gyfres i fod i gael eu cyhoeddi ar Hwb ym mis Ionawr, felly cadwch lygad am y rheini. Yn y cyfamser, os ydych angen unrhyw gyngor neu hyfforddiant gennym ni ar AG, CGM neu addoli ar y cyd, cysylltwch â ni, byddem wrth ein bodd yn helpu!

Gan ddymuno gwyliau heddychlon a chynnes i chi. Nadolig Llawen!

Libby a Tania

CWBLHEWCH AROLWG BYR I DDWEUD YR HYN YR HOFFECH EI WELD YN EIN CYFNODOLYN SAFON UWCH

Mae Herio Materion Crefyddol yn gyfnodolyn am ddim ar gyfer athrawon a myfyrwyr UG a Safon Uwch. Rydym angen eich help i benderfynu pa bynciau fyddai fwyaf defnyddiol i chi yn y cyfnodolyn. A fyddech cystal â chymryd ychydig funudau i gwblhau arolwg byr iawn… *(Blog: 13 Rhagfyr 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/12/13/complete-a-short-survey-to-say-what-you-want-to-see-in-our-a-level-journal/


Enghraifft o Dempled Cynllunio Tymor Canolig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Y Pedwar Diben

◇ Dysgwyr uchelgeisiol, galluog ◇ Cyfranwyr mentrus, creadigol ◇ Dinasyddion egwyddorol, gwybodus ◇ Unigolion iach, hyderus

Datblygiad ysbrydol

◇ Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill ◇ Cysyltu â'r byd ehangach a'r byd naturiol

◇ Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin ◇ Archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas

Maes Dysgu a Phrofiad	Blwyddyn / Tymor	Lens Ddisgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	Cwestiynau ffocws Disgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
Dyniaethau		1. Chwilio am ystyr a phwrpas	
Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:	Thema / Cwestiwn Mawr	2. Y byd naturiol a phethau byw	
1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.		3. Hunaniaeth a pherthyn	
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.		4. Awdurdod a dylanwad	Cysyltiadau gyda Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	5. Cydberthnasau a chyfrifoldebau	
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.		6. Gwerthoedd a Moeseg	
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol ac egwyddorol.		7. Taith bywyd	
Gwybodaeth	Sgiliau	Profiadau	

ENGHRAIFFT O DEMPLED CYNLLUNIO TYMOR CANOLIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)

Mae cynllunio tymor canolig gofalus ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dull ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei sefydlu'n briodol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae Canolfan San Silyn wedi datblygu enghraifft o adnodd cynllunio tymor canolig enghreifftiol. Lluniwyd yr adnodd i amlygu'r ystyriaethau cynllunio sylweddol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gefnogi ysgolion i ystyried canllawiau a maes llafur cytunedig lleol… *(Blog: 7 Rhagfyr 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/12/07/example-medium-term-planning-template-for-religion-values-and-ethics-rve/

GWYDDONIAETH YN CYFARFOD CGM MEWN PROSIECT CWRICWLWM NEWYDD I YSGOLION CYNRADD WRECSAM

Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn elusen sydd â gweledigaeth i fod yn 'Gartref i Ysbrydoli Gwyddoniaeth yng Nghalon y Gymuned'. Mae'r elusen yn rhedeg y ganolfan darganfod gwyddoniaeth, Xplore! Wrecsam, ac yn darparu gweithgareddau rhyngweithiol allgymorth ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r tîm yn Xplore! yn cyd-greu pedwar gweithdy mewn cydweithrediad agos â Chanolfan San Silyn Wrecsam, yn arbennig i ysgolion cynradd. Bydd pob gweithdy yn dwyn ...
(Blog: 5 Rhagfyr 2022)

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/12/05/science-meets-rve-in-a-new-curriculum-project-for-wrexham-primary-schools/



ARGRAFFIAD CYFYNGEDIG O ADNODDAU RANDALPH DDOETH AR GYFER CGM YN CAEL EU RHOI I YSGOLION CYNRADD WRECSAM

Ar 22 Tachwedd, rhoddodd Cynghorydd CGM Awdurdod Lleol Wrecsam, Libby Jones, gyflwyniad yng nghyfarfod Briffio Penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd awdurdod lleol Wrecsam. Yn ystod y cyflwyniad, rhoddodd Libby negeseuon allweddol i benaethiaid am…
(Blog: 22 Tachwedd 2022)

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/11/22/limited-edition-randalph-the-wise-resources-for-rve-given-to-wrexham-primary-schools/



CANLLAWIAU ANSTATUDOL ATEGOL WEDI'U CYHOEDDI AR GYFER YSGOLION CATHOLIG YNG NGHYMRU

Mae Canolfan San Silyn yn croesawu cyhoeddi'r ddogfen *Cwricwlwm i Gymru: canllawiau anstatudol ategol ar gyfer ysgolion Catholig*, sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg statudol (CGM). Mae canllawiau ar 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen. Nod y ddogfen yw rhoi arweiniad anstatudol ychwanegol i benaethiaid, llywodraethwyr, staff, rhieni … *(Blog: 21 Tachwedd 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/11/21/supporting-non-statutory-guidance-published-for-catholic-schools-in-wales/

QATAR, PÊL-DROED A HAWLIAU DYNOL: 'ALL THINGS CONSIDERED' YN DOD I WRECSAM

Dydd Iau 10fed Tachwedd bydd cyfres ffydd a moeseg arobryn BBC Radio Wales 'All Things Considered' yn cael ei recordio o flaen cynulleidfa fyw ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam… *(Blog: 10 Tachwedd 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/11/10/qatar-football-and-human-rights-all-things-considered-comes-to-wrexham/

COFRESTRWCH AR GYFER GWEMINAR AR Y CYNIGION TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL NEWYDD

Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae Cymwysterau Cymru yn cynnal gweminar yn rhoi trosolwg o'r cynigion TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd ar 19 Hydref… *(Blog: 18 Hydref 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/10/18/sign-up-for-webinar-on-the-new-religious-studies-gcse-proposals/

RHAGLEN DYSGU PROFFESIYNOL CBAC AR GYFER 2022/23

Mae CBAC newydd gyflwyno ei raglen dysgu proffesiynol newydd ar gyfer 2022/23. Mae dros 600 o gyrsiau wyneb yn wyneb neu ar-lein yn cael eu cynnig, a fydd yn cael eu rhedeg gan dîm o arbenigwyr CBAC ar draws y wlad. Bydd Canolfan San Silyn yn ariannu lleoedd i ysgolion Wrecsam ar y cyrsiau Astudiaethau Crefyddol TGAU ac UG/Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol, i gefnogi ei hymarferwyr Astudiaethau Crefyddol lleol ar eu taith dysgu a datblygu proffesiynol… *(Blog: 20 Medi 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/09/20/wjec-professional-learning-programme-for-2022-23/

CANLLAWIAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Mae Canolfan San Silyn yn croesawu cyhoeddi'n ddiweddar Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yr Eglwys yng Nghymru. Gan gyfeirio'n benodol at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae Datganiad yr Eglwys yng Nghymru ar Addysg yn dweud: "Trwy gydol ei hanes mae Cymru wedi croesawu pobl o wahanol ffydd ac o ddiwylliannau gwahanol, a thrwy ei haddysg ar bwnc crefydd, gwerthoedd a moeseg, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi agwedd sy'n hybu dealltwriaeth a pharch tuag at bob crefydd, cred a byd-olwg anghrefyddol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n bodoli yn ein cymdeithas Gymreig flaengar." *(Blog: 20 Medi 2022)*

Darllenwch ragor …
https://stgilescentre.org/cy/2022/09/20/church-in-wales-religion-values-and-ethics-guidance/